OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

# Pecyn Recriwtio

## Aelodau Annibynnol y Pwyllgor

## Archwilio a Sicrhau Risg

## neu

## y Panel Ymgynghorol

**Dyddiad Cau:**
**Hanner Dydd, 7 Tachwedd 2022**

# Cynnwys


Cyflwyniad

Pwy all wneud cais

**Amdanom ni**

Ein Cynllun a Nodau Strategol

Ein Gwerthoedd

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

**Ynglŷn â'r rôl**

Diben y rôl

Gofynion

**Sut i ymgeisio**

Ymgeisio am y rôl

Canllawiau ynglŷn â sut i ymgeisio

Cyflwyno eich cais

Cymorth gyda'ch cais

**Y Broses Recriwtio a Dethol**

**Diogelu Data**

# Cyflwyniad

Diolch am eich diddordeb yn y rôl **Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg neu Banel Ymgynghorol** yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Nod ein proses recriwtio yw denu ymgeiswyr o safon ac, yn fwy na dim, recriwtio'r bobl orau.

Mae'r Pecyn Recriwtio hwn yn cynnwys gwybodaeth amdanom, ein proses recriwtio a sut i ymgeisio am y swydd.

Ewch i'n gwefan **www.ombwdsmon.cymru** am ragor o wybodaeth am y swyddfa.

# Pwy all wneud cais

Gan mai ein rôl yw ystyried cwynion yn ddiduedd ac yn annibynnol am yr holl wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, **nid** yw unrhyw un sydd â rôl swyddog a gyflogir gan gorff cyhoeddus Cymreig yn **gymwys** i gael ei benodi.

Fodd bynnag, gan nad yw rôl aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg neu'r Panel yn rôl weithredol o fewn OGCC, gall unrhyw un sydd wedi'i benodi i rôl fwrdd sydd â swyddogaeth graffu (er enghraifft, ar bwyllgor archwilio corff cyhoeddus) wneud cais.

Os hoffech drafod unrhyw wrthdaro bosibl â'r rôl cyn i chi gyflwyno cais, cysylltwch â ni am sgwrs anffurfiol.

# Amdanom ni

# Amdanom ni

Mae gennym dair rôl benodol:

### Cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus

O dan y Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, rydym yn ystyried cwynion am gyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, lle mae'r cyfrifoldeb am eu darparu wedi'i ddatganoli i Gymru.

### Cwynion y Cod Ymddygiad

O dan Ran III y Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ynghyd â Gorchmynion perthnasol o dan y Ddeddf honno, rydym yn ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri Cod Ymddygiad eu hawdurdod.

### Gwelliant rhagweithiol

O dan y Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, gallwn bennu safonau ar gyfer ymdrin â chwynion i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, cyhoeddi data ar gwynion a chefnogi ymdriniaeth dda â chwynion drwy gynnig hyfforddiant. Gallwn hefyd lansio ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain, pan rydym o’r farn bod amheuaeth resymol bod pobl wedi cael eu trin yn annheg ac wedi dioddef anghyfiawnder personol o ganlyniad.

Rydym yn annibynnol o holl gyrff y llywodraeth ac mae ein gwasanaeth yn ddi-dâl.

# Ein Cynllun a Nodau Strategol

Roedd ein Cynllun Corfforaethol blaenorol yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2019 a 2022. Rydym nawr yn datblygu nodau strategol newydd i gyflawni ein huchelgais ar gyfer y swyddfa:

- Mae pobl Cymru yn teimlo bod gwasanaethau cyhoeddus yn eu trin yn deg ac yn ymateb pan aiff pethau o chwith.
- Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn gwrando ar unigolion ac yn defnyddio eu cwynion i ddysgu a gwella.
- Mae ymddiriedaeth yn llywodraeth leol Cymru i gyflawni'r safonau uchaf o ymddygiad.
- Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn parhau i fod yn llais dylanwadol ac uchel ei barch o ran gwella gwasanaethau cyhoeddus.

Pedwar Nod arfaethedig y Cynllun yw:

1. Cyflawni cyfiawnder sy'n cael effaith gadarnhaol ar bobl a gwasanaethau cyhoeddus
2. Cynyddu hygyrchedd a chynhwysiant
3. Ehangu ein gwaith gwella rhagweithiol
4. Sicrhau ein bod yn sefydliad iach, effeithlon ac atebol

EIN GWERTHOEDD




# Ein Gwerthoedd

Nod ein gwerthoedd yw darparu templed ar gyfer yr ymddygiadau a'r safonau sy'n ddisgwyliedig gan y rhai sy'n gweithio i ni. Maent yn amlinellu'r ffordd rydym yn gwneud pethau yma.

---

**C** **Cyflawni:**
Gwneud ein gorau glas

**U** **Undod:**
Parchu ein gilydd a gweithio ar y cyd er mwyn i'r sefydliad lwyddo

**M** **Meddwl yn gadarnhaol:**
Dangos brwdfrydedd a balchder o ran pwy ydyn ni a'r hyn rydyn ni'n ei wneud

**C** **Cefnogaeth:**
Bod yn gefn i'n gilydd a gwerthfawrogi ein hamrywiaeth

**P** **Perchenogaeth:**
Derbyn cyfrifoldeb am bopeth a wnawn

**P** **Parodrwydd:**
Bod yn awyddus, yn hyblyg ac yn rhagweithiol

# Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG

Chwarae Teg FAIRPLAY EMPLOYER

Ymwybyddiaeth am Awtistiaeth Autism Aware

BLACK HISTORY MONTH UK B:M 2022 DIVERSITY CHAMPION

Rydym yn falch o fod yn gyflogwr cynhwysol sy’n rhoi cyfle cyfartal.

Rydym yn gyflogwr sy’n ymroddedig i’r cynllun Hyderus o ran Anabledd.

Rydym wedi cyflawni achrediad Arian Cyflogwr Chwarae Teg ar gyfer cydraddoldeb rhwng y rhywiau o dan gynllun Cyflogwr Chwarae Teg.

Rydym wedi ein hardystio fel Cyflogwr Ymwybodol am Awtistiaeth.

Rydym yn gweithio â Mis Hanes Pobl Dduon i hyrwyddo cyfleoedd recriwtio ymysg cymunedau amrywiol.

I hyrwyddo mwy o amrywiaeth yn ein gweithlu a rolau llywodraethu, byddwn yn rhoi eich cais ar y rhestr fer os ydych yn ystyried eich hunain yn **anabl** neu o **gefndiroedd ethnig amrywiol,** ar yr amod eich bod yn bodloni’r holl feini prawf hanfodol.

# Ynglŷn â’r rôl

# Diben y rôl:
# Y Panel Ymgynghorol

Rôl a chyfrifoldebau'r **Panel Ymgynghorol** yw:

Cynorthwyo'r Ombwdsmon wrth sefydlu:
- cyfeiriad, nodau, amcanion a thargedau strategol OGCC;
- polisïau busnes allweddol;
- strategaethau a pholisïau cyflogaeth allweddol.

I archwilio a sicrhau:
- y Cynllun Strategol Tair Blynedd a'r Cynllun Busnes Blynyddol;
- dyrannu cyllideb lefel uchel;
- cyflwyno amcangyfrifon cyllideb i Bwyllgor Cyllid Senedd Cymru.

I fonitro ac adolygu:
- perfformiad a darpariaeth weithredol;
- effeithiolrwydd strategaethau a pholisïau cyflogaeth;
- amrywiaeth a chyfle cyfartal, yn enwedig mewn cysylltiad â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- strategaethau cyfathrebu allanol a chysylltiadau â rhanddeiliaid.

# Diben y rôl:
# Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Rôl a chyfrifoldeb y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yw craffu a rhoi cyngor i'r Swyddog Cyfrifyddu ynglŷn â'r canlynol:

- y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol;
- y cynlluniau Strategol a Busnes drafft ar sail cydymffurfiaeth, economaidd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd i gydnabod y gofyniad yn yr archwiliad blynyddol i roi cyfrif am y defnydd o arian;
- polisïau cyfrifyddu, cyfrifon, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau'r gwallau a nodwyd, a llythyr sylwadau'r rheolwyr at yr archwilwyr allanol;
- y gweithgarwch arfaethedig a chanlyniadau'r archwiliad mewnol ac allanol; y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg
- pa mor ddigonol yw ymateb y rheolwyr i faterion a ganfuwyd gan weithgarwch archwilio, gan gynnwys llythyr y rheolwyr am archwilio allanol;
- sicrwydd sy'n ymwneud â gofynion llywodraethu corfforaethol y sefydliad;
- (pan fo'n briodol) cynigion ar gyfer tendro am wasanaethau Archwilio Mewnol neu ar gyfer prynu gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio;
- polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig;
- trefniadau parhad busnes;
- trefniadau Iechyd & Diogelwch;
- hefyd, bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun yn rheolaidd.

# Gofynion

## Meini Prawf hanfodol

Dylai ymgeiswyr fod â'r canlynol:

- y gallu i ddylanwadu ar sefydliadau, ac ymgysylltu â nhw, ar lefel uchel i hyrwyddo newid cadarnhaol
- sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol da
- y gallu i ddehongli data cymhleth
- dealltwriaeth da o sector cyhoeddus Cymru.

## Meini Prawf dymunol

Byddai'n ddymunol pe bai gennych rywfaint o ddealltwriaeth o rôl yr Ombwdsmon.

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gennych os oes gennych arbenigedd yn y meysydd canlynol:

- gwasanaethau iechyd
- seibrddiogelwch
- TGCh - digidol
- cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

# Gofynion (parhau)

## Cynhwysiant a'r Gymraeg

Rydym yn croesawu ac yn annog yn arbennig geisiadau gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Byddwn yn rhoi eich cais ar y rhestr fer os ydych yn ystyried eich hunain yn **anabl** neu **o gefndiroedd ethnig amrywiol**, ar yr amod eich bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol. Os hoffech elwa ar y cyfle hwn, sicrhewch eich bod yn tynnu sylw at hyn yn eich llythyr eglurhaol.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau cynrychiolaeth dda o fenywod yn ein sefydliad ac yn ein rolau llywodraethu.

Ar gyfer y rôl hon, nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol, ond maent yn ddymunol.

# Sut i Ymgeisio

# Ymgeisio am y rôl

## Cais

Dylech gyflwyno eich cais ar ffurf CV a llythyr eglurhaol yn nodi eich addasrwydd ar gyfer y rôl a'ch meysydd arbenigedd. **Pan ydych yn ymgeisio, nodwch yn glir pa rôl sydd o ddiddordeb i chi.**

Fel sefydliad dwyieithog, rydym yn defnyddio’r Gymraeg a Saesneg yn ein gwaith ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac ni fydd ceisiadau a wneir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau a wneir yn Saesneg.

Byddwn yn gofyn i chi a hoffech gael eich cyfweld yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os ydych yn dewis cael eich cyfweld yn Gymraeg, byddwn yn trefnu hyn. Gan ein bod yn sefydliad dwyieithog, cynhelir rhai rhannau o’r cyfweliad yn Saesneg.

## Monitro cydraddoldeb

Byddem yn ddiolchgar pe gallech lenwi ein Ffurflen Monitro Cydraddoldeb. Byddwn yn ymdrin â’r ffurflen honno ar wahân ac yn gyfrinachol i’ch cais. Ni fyddwn yn defnyddio’r ffurflen i asesu eich addasrwydd ar gyfer cyflogaeth.

## Dyddiad cau

Rhaid i chi ymgeisio erbyn **hanner dydd, 7 Tachwedd 2022.** Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau a fydd yn cael eu hanfon atom ar ôl y dyddiad hwn.

# Canllawiau ynglŷn â sut i ymgeisio

Bydd eich llythyr eglurhaol a'ch CV yn ffurfio rhan o'r broses ddethol.

- Darllenwch drwy'r Pecyn Recriwtio hwn yn ofalus cyn dechrau eich llythyr eglurhaol.
- Efallai y bydd yn fuddiol i chi ddarllen Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a Chylch Gorchwyl y Panel Ymgynghorol cyn cyflwyno eich cais. Mae'r rhain ar gael **ar ein gwefan**, ynghyd ag adolygiadau blynyddol 2021/22 y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Panel.

Mae'n rhaid i ni dderbyn eich cais cyn y dyddiad cau fel y nodir yn yr hysbyseb a'r Pecyn Recriwtio.

- Os ydych yn anfon eich cais dros ebost, sylwer mai ein gweinydd fydd yn pennu amser derbyn.
- Os hoffech gyflwyno eich cais a'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb drwy'r post, anfonwch nhw at ein cyfeiriad post sydd ar gael ar y dudalen nesaf. Cofiwch, nid yw post dosbarth cyntaf yn gwarantu post y diwrnod nesaf. Ni fyddwn yn derbyn unrhyw gais lle bydd gofyn i ni dalu diffyg o ran postio.

Cwblhewch y Ffurflen Monitro Cydraddoldeb. Ni fydd y manylion a roddwch ar y ffurflen hon yn rhan o'r broses ddethol ond bydd yn ein helpu i wneud ein proses recriwtio yn fwy cynhwysol.

Rydym yn argymell eich bod yn cadw copi o'ch cais gorffenedig a'i gadw ar gyfer eich cofnodion.

Mae'r holl ddogfennau recriwtio ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

# Cyflwyno eich cais

Gallwch anfon eich cais **dros ebost** at: recriwtio@ombwdsmon.cymru

Gallwch hefyd ei anfon **drwy'r post** at:

Recriwtio
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Sicrhewch eich bod wedi atodi'r canlynol:

- ❑ Llythyr eglurhaol
- ❑ CV
- ❑ Ffurflen Monitro Cydraddoldeb (dewisol)

# Ansicr a ddylech ymgeisio?

Byddwn yn cynnal sesiynau anffurfiol ar-lein i roi cyfle i chi ddeall yn well ein rôl a'n sefydliad ac a yw dod yn aelod annibynnol yn addas i chi. I archebu, dilynwch y dolenni isod:

- 27 Hydref, 2:00-2:30: **cliciwch yma**
- 3 Tachwedd, 10:00-10:30: **cliciwch yma**

Yn ogystal, os hoffech gael sgwrs anffurfiol gyda'r Ombwdsmon ynglŷn â'r rôl, anfonwch ebost at: **recriwtio@ombwdsmon.cymru** neu ffoniwch **01656 644214** a byddwn yn cysylltu'n ôl gyda dyddiad ac amser addas.

# Y Broses Recriwtio a Dethol

# Y Broses Recriwtio a Dethol

## Asesiad Cychwynnol

Byddwn yn ystyried pob cais cyflawn. Byddwn yn ystyried eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch profiad perthnasol fel y dangosoch yn eich cais. Felly, mae'r wybodaeth a ddarparwch yn hanfodol ar gyfer penderfynu a fyddwn yn rhoi eich cais ar y rhestr fer.

I hyrwyddo mwy o amrywiaeth yn ein gweithlu a rolau llywodraethu, byddwn yn rhoi eich cais ar y rhestr fer os ydych yn ystyried eich hunain yn **anabl** neu o **gefndiroedd ethnig amrywiol,** ar yr amod eich bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol. Os hoffech elwa ar y cyfle hwn, sicrhewch eich bod yn tynnu sylw at hyn yn eich llythyr eglurhaol.

## Cyfweliadau

Yn dilyn asesiad cychwynnol, byddwn yn llunio rhestr fer. Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, byddwn yn eich gwahodd am gyfweliad yn ein swyddfa ym Mhencoed.

## Cymorth ychwanegol

Rydym yn ymdrechu i wneud ein proses recriwtio yn hygyrch i bawb. Os oes angen unrhyw gymorth ychwanegol arnoch, er enghraifft oherwydd anabledd, rhowch wybod i ni yn eich llythyr eglurhaol a byddwn yn hapus i'ch cynorthwyo.

# Penodi

## Geirdaon

Cyn i ni gadarnhau eich penodiad, bydd yn rhaid i ni gael geirdaon addas.

## Amserlen

Mae'r amserlen yr ydym yn gweithio iddi wedi'i chrynhoi isod.  Os byddwch yn llwyddiannus yn ystod y cam asesu cychwynnol, bydd disgwyl i chi sicrhau eich bod ar gael ar ddyddiadau'r cyfweliad.  Os na allwch fod yn bresennol ar gyfer y dyddiad a gynigir, efallai na chewch eich ystyried ar gyfer y rôl hon.

**Dyddiad cau: Hanner Dydd, 7 Tachwedd 2022**

**Cyfweliadau 23 a/neu 24 Tachwedd 2022**

# Diogelu Data

# Hysbysiad Preifatrwydd

Mae ein **Hysbysiad Preifatrwydd** yn egluro'r ffordd y bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol (neu wybodaeth bersonol yr unigolyn y byddwch yn gweithredu ar ei ran).

Mae gofynion yr hysbysiad preifatrwydd wedi'u nodi yn y **Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data** a'r **Ddeddf Diogelu Data 2018**.

Ombwdsmon
Ombudsman

OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES